**EITEM AR YR AGENDA: 12**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Mehefin 2013**

## CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (CPLlL) – POLISI DISGRESIYNAU

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

### Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad ar yr Awdurdod i lunio Datganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL.

2 Ceisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau a wnaed ynghylch pob rheoliad yn Natganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL, a cheisio cymeradwyaeth y bydd penderfyniadau o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd, ar ran yr ATA.

### Gwybodaeth

3 O dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2008, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cyflogi lunio, cyhoeddi ac adolygu datganiad polisi ynglŷn ag arfer nifer o ddisgresiynau o dan y CPLlL.

4 Cynhwysir yn y Datganiad Polisi bob maes disgresiwn sy'n gofyn am benderfyniad ffurfiol.

5 Nid yw'r datganiad polisi hwn yn gymwys ond i aelodau'r cynllun a gyflogir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

### Argymhelliad

6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo pob penderfyniad ynghylch disgresiwn o fewn Datganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL, a dirprwyo penderfyniadau o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.

**Polisi Disgresiynau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Math o ddogfen: Polisi

Fersiwn, rhif: 1
Dyddiad adolygu: Mehefin 2014

**RHAN A**

Mae rheoliadau'r CPLlL yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithiwr (i) gyhoeddi datganiad polisi ysgrifenedig ynglŷn â'r modd y bydd yn arfer y gwahanol ddisgresiynau a ddarperir gan y cynllun, (ii) ei adolygu a (iii) ei ddiwygio fel y bo'r angen. Mae'r ddogfen hon yn bodloni'r gofynion hynny, gan nodi gofyniad y rheoliad a phenderfyniad y sefydliad ynghylch y rhain.
Mae'r disgresiynau hyn yn agored i'w newid, naill ai'n unol ag unrhyw newid mewn rheoliadau neu ar ôl i'r Awdurdod eu hystyried. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol.

**1.1 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliad 12**

*Caiff cyflogwr gynyddu (h.y. codi) cyfanswm aelodaeth gweithiwr sydd ar y pryd yn talu cyfraniadau i'r Cynllun, er enghraifft, er mwyn gwella'r pecyn i'r staff â sgiliau prin a/neu allweddol.*
*Ni chaiff cynnydd aelodaeth yr aelod (o'r cynllun pensiwn) o dan y rheoliad hwn (gan gynnwys aelodaeth ychwanegol mewn perthynas â gwahanol gyflogaethau) fod yn fwy na 10 mlynedd, na mynd yn uwch na 75 mlwydd oed os yw'n ymddeol ar ôl 65 mlwydd oed.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
Mae'r Awdurdod wedi defnyddio ei ddisgresiwn i beidio â chodi pensiwn yn uwch.

**1.2 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliad 13**

*Mae'r rheoliad hwn yn caniatáu i gyflogwr benderfynu dyfarnu pensiwn ychwanegol i aelod nad yw'n fwy na £5000 y flwyddyn ac yn daladwy o'r un dyddiad â'i bensiwn sy'n daladwy o dan unrhyw ddarpariaethau eraill o'r Rheoliadau Buddion.*
*Gellir dyfarnu pensiwn ychwanegol yn ogystal ag unrhyw gynnydd yng nghyfanswm aelodaeth y penderfynwyd arno o dan Reoliad Buddion 12.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i ddyfarnu pensiwn ychwanegol.
Caiff aelodau'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol ddewis mwyhau eu buddion pensiwn drwy brynu pensiwn ychwanegol o hyd at gyfanswm o £5,000 (mewn symiau sy'n lluosrifau o £250) drwy dalu Cyfraniadau Ychwanegol Rheolaidd (ARCs).

## 1.3 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 Rheoliad 18 (1)

*Caiff aelod o'r cynllun pensiwn sydd wedi cyrraedd 55 mlwydd oed a sydd, gyda chydsyniad ei gyflogwr, yn gostwng nifer yr oriau y mae'n eu gweithio neu'r radd y mae wedi ei gyflogi arni, wneud cais ysgrifenedig i'r Gronfa Bensiwn i dderbyn ei holl fuddion neu ran ohonynt o dan y Rheoliadau Buddion. Fodd bynnag, ni ellir talu'r buddion heb gydsyniad y cyflogwr.*
*Os caiff y buddion eu lleihau yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth, caiff y cyflogwr gytuno i hepgor unrhyw ostyngiad o'r fath, yn rhannol neu i gyd.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
Bydd unrhyw gais gan weithiwr am ymddeoliad hyblyg yn cael ei ystyried ar sail ei deilyngdod ei hun ar ôl ystyried yr holl oblygiadau ariannol a'r goblygiadau o ran cyflwyno gwasanaethau.
Pan fo cost gyfalaf i'r Awdurdod Tân, mae'n annhebygol y cytunir i'r cais oni bai y gellir gwrthbwyso'r costau cyfalaf gan arbedion ariannol.
Nid yw hyn yn atal gweithwyr iau rhag gwneud cais am weithio hyblyg ond heb dalu eu buddion ymddeol.

## 1.4 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliad 18 (3)

Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i hepgor unrhyw ostyngiad ar y budd pensiwn oherwydd talu'n gynnar.

## 1.5 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliad 30 (2)

*Pan fo aelod o'r cynllun pensiwn yn ymadael â chyflogaeth cyn iddo fod â'r hawl i'r buddion ymddeol ar unwaith, ar ôl iddo gyrraedd 55 mlwydd oed gall ddewis eu derbyn ar unwaith.*
*Mae dewis a wneir gan aelod sy'n iau na 60 mlwydd oed yn aneffeithiol heb gydsyniad ei gyflogwr neu ei gyn-gyflogwr.*
*Os caiff y buddion eu lleihau yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Adran Actiwari'r Llywodraeth, caiff y cyflogwr gytuno i hepgor unrhyw ostyngiad o'r fath, yn rhannol neu i gyd.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i ryddhau pensiwn yn gynnar oni bai:
(i) bod hynny'n golygu bod budd gohiriedig cynharach yn cael ei dalu yn dilyn dileu swydd neu ymddeoliad ar sail effeithlonrwydd gan weithiwr presennol o swydd gyfredol yn y Gwasanaeth Tân, neu
(ii) os oes rhesymau grymus a thosturiol* dros wneud hynny.
Os yw'r Gwasanaeth yn cytuno i ganiatáu ymddeoliad cynnar gan dalu buddion pensiwn ar unwaith am resymau nad ydynt yn ymwneud â sail dosturiol, bydd gostyngiad actiwaraidd yn cael ei wneud fel arfer ar fuddion pensiwn cronedig y person er mwyn ystyried y ffaith y bydd y buddion yn cael eu talu am fwy o amser.
Mae gan y Gwasanaeth ddisgresiwn i hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd am dalu'n gynnar. Fel arfer, mae gwneud hyn yn golygu cost gyfalaf i'r Awdurdod Tân. Mewn achosion o'r fath, pan gymeradwyir rhyddhau buddion pensiwn yn gynnar, ni chaiff unrhyw ostyngiad actiwaraidd ei hepgor mewn unrhyw amgylchiadau.

### 1.6 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliad 30 (5)

Mae'r Gwasanaeth wedi penderfynu na dderbynir ceisiadau am dalu pensiwn yn gynnar cyn 60 mlwydd oed ond pan ellir dangos bod hynny er lles i'r Gwasanaeth, h.y. oherwydd mantais ariannol neu weithredol bendant i'r Gwasanaeth, neu pan fo sail dosturiol dros ryddhau buddion pensiwn yn gynnar.

Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i hepgor y gostyngiad actiwraidd pan delir pensiwn yn gynnar oni bai:
(i) bod y taliad yn ymwneud â rhywun a ddiswyddir oherwydd dileu swydd neu sy'n cymryd ymddeoliad cynnar ar sail effeithlonrwydd o gyflogaeth weithredol gyda'r Gwasanaeth Tân
(ii) os oes rhesymau grymus a thosturiol* dros wneud hynny.

### 1.7 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliad 47

*Nid oes gan aelod o'r cynllun, sy'n bodloni'r meini prawf arferol ar gyfer ad-dalu cyfraniadau pensiwn, hawl i ad-daliad o'r fath os yw wedi ymadael â'i gyflogaeth oherwydd:*

- *Trosedd o natur dwyllodrus – oni bai fod y cyflogwr yn gorchymyn y gellir gwneud ad-daliad cyfan neu rannol i'r aelod.*
- *Camymddygiad difrifol – oni bai fod y cyflogwr yn gorchymyn y gellir gwneud ad-daliad cyfan neu rannol i'r aelod, ei briod, ei bartner sifil, cymar sy'n cydfyw ac a enwir, neu unrhyw ddibynydd sydd ganddo.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad

Pob cais i gael ei ystyried yn unigol gan y Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd ar ran yr Awdurdod Tân, cyn gwneud penderfyniad.

## Rhan B

### 2.1 Y Cefndir

Mae pedwar disgresiwn pellach nad yw'n orfodol eu cynnwys yn y Datganiad Polisi, ond yr argymhellir eu cynnwys:

### 2.2 Rheoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2008, Rheoliad 22 (2)

*Caiff aelod o'r cynllun ddewis talu cyfraniadau dewisol i ymorol am gyfnod o absenoldeb o'r gwaith, cyhyd ag y gwneir y dewis o fewn 30 niwrnod ar ôl dychwelyd i'r gwaith neu derfynu cyflogaeth neu gyfnod hwy a ganiateir gan y cyflogwr.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
Mae'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i ystyried estyniad mewn achosion pan na chafodd aelod o'r staff ei hysbysu ynghylch eu hawliau i dalu cyfraniadau i ymorol am gyfnod o absenoldeb cyn dychwelyd i'r gwaith, neu derfynu bod yn gyflogedig heb ddychwelyd i'r gwaith. Byddai'r estyniad am fis o'r dyddiad pryd y cafodd ei hysbysu am ei hawl i dalu.

### 2.3 Rheoliad CPLlL (Gweinyddu) 2008, Rheoliad 83 (8)

*Os yw aelod o'r cynllun yn dymuno trosglwyddo pensiwn i'r CPLlL, rhaid iddo ddewis gwneud hynny cyn pen 12 mis ar ôl ymuno â'r CPLlL neu gyfnod hwy a ganiateir gan y cyflogwr.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i ystyried ymestyn y terfyn amser ar gyfer trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol ar ôl deuddeng mis wedi iddo ymuno, oni bai:
(i) bod yr aelod o'r cynllun wedi gwneud cais i ymchwiliadau gychwyn o fewn y terfyn amser o ddeuddeng mis, neu
(ii) os oes rheswm i gredu na fyddai'r unigolyn wedi gwybod am yr angen i wneud cais am ymchwiliad ei bod yn bosibl trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i mewn cyn pen y deuddeng mis o derfyn amser, a bod ffeiliau'r pensiwn a/neu AD yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir cyfnod hwy, a hynny os nad oes rheswm hysbys nac argoel y caiff y gweithiwr fynediad at eu hawliau pensiwn o fewn y 12 mis nesaf.

### 2.4 Rheoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2008 Rheoliad 25 (3)

*Pan fo awdurdod cyflogi'r aelod yn cyfrannu i'r cynllun, enw'r trefniant cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yw trefniant cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhannu costau, a'r enw ar y cyfraniadau iddo yw "SCAVCs".*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i gyfrannu tuag at gynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhannu costau.

### 2.5 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 Rheoliad 3 (4)

*Pan fo aelod yn cael ei gyflogi mewn unrhyw gyflogaeth am ddim ond rhan o unrhyw flwyddyn ariannol, yr ystod (a'r gyfradd gyfraniadau) sy'n gymwys iddo yw'r rhai a fyddai wedi bod yn gymwys petai wedi bod yn gyflogedig fel hynny am y flwyddyn ariannol honno ar ei hyd.*

Bydd y gyfradd cyfraniad haenog ar gyfer pob gweithiwr yn seiliedig ar elfennau'r cyflog pensiynadwy. Caiff y cyflog sylfaenol ei asesu ar y gyfradd gyfwerth lawn-amser ymhob swydd y mae gweithiwr yn ei dal ar 1 Ebrill.
Caiff y gyfradd gyfraniadau ei hailasesu bob blwyddyn pan weithredir/gymhwysir y dyfarniad cyflog blynyddol (ni waeth pryd y gwneir y dyfarniad). Ailasesir unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn yn yr amgylchiadau a ganlyn:-

- Dyrchafu
- Israddio
- Datblygiad cynyddrannol
- Dyfarniad cyflog
- Dechrau / Diwedd cyfnod gweithredu ar lefel uwch dros dro
- Dechrau / Diwedd Lwfans Cytundebol

**3. Diffiniadau**

*Diffiniad o resymau grymus a thosturiol:
(i) Gall yr aelod ddangos yn eglur fod ganddo ddibynnydd sydd angen goruchwyliaeth gyson gan yr aelod oherwydd salwch tymor hir, ac felly mae'r aelod yn dioddef caledi ariannol dybryd NEU
(ii) Mae rheswm sylweddol arall (nad yw'n ymwneud â gofalu am ddibynnydd sydd heb fod yn iach) pan fo'r aelod yn gallu dangos ei fod yn wynebu caledi ariannol parhaus a dybryd ac y bydd yn gwneud hynny am gyfnod hir.

Mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond ar ôl i'r Gwasanaeth Tân gymeradwyo hynny o flaen llaw, caiff yr Awdurdod Tân amrywio telerau'r polisi hwn ar sail unigol.
Mae'r rhestr yn ddarostyngedig i statud, rheoliadau a pholisi'r Awdurdod Tân. Gellir ei amrywio yn y dyfodol fel bo'r angen.

Ymdrinir â phob disgresiwn yn annibynnol.